

Rhan B (Diogelwch rhag tân) – systemau atal tân awtomatig – Cwestiynau Cyffredin

C1 - Ym mha adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u haddasu bydd gofyn cael system chwistrellu?

Yn ôl y rheoliadau adeiladu, mae'n rhaid gosod system atal tân awtomatig mewn preswylfeydd domestig newydd ac unrhyw adeiladau sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu haddasu, drwy newid defnydd, er mwyn creu preswylfeydd domestig. Ceir rhestr isod o'r preswylfeydd domestig dan sylw, ac maent yn cynnwys adeiladau newydd ac adeiladau a addaswyd:

- Cartrefi gofal (fel y'u diffinnir yn Neddff Safonau Gofal 2000);
- Cartrefi preswyl i blant;
- Lletyau preswyl;
- Neuaddau preswyl;
- Hosteli ac eithrio hosteli y bwriedir iddynt fod yn llety dros dro at ddibenion hamdden tymor byr (e.e. pan fo gan yr ymwelwyr breswylfa arall);
- Tai;
- Fflatiau;
- Unrhyw ddiben preswyl arall ac eithrio'r rheini y cyfeirir atynt yn C3 isod

Felly, os bydd yr adeilad newydd yn un o'r uchod, bydd yn rhaid gosod system chwistrellu. Hefyd, os oes bwriad i addasu adeilad o unrhyw fath sy'n bodoli eisoes er mwyn ei droi'n un o'r categorïau preswyllo uchod, ac os yw hynny'n golygu y bydd y defnydd a wneir ohono yn newid, yna bydd gofyn gosod system o'r fath hefyd.

C2 - Beth am fathau eraill o adeiladau neu breswylfeydd?

Ni fydd y gofyniad newydd yn berthnasol i adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u haddasu sy'n:

- Ysbytai;
- Carchardai;
- Gwestai;
- Adeiladau'r Goron;
- Adeiladau dros dro;
- Adeiladau ynni.

Felly, os bydd yr adeilad newydd yn un o'r uchod, *ni* fydd y gofyniad newydd yn berthnasol. Neu, os caiff gwaith adeiladu ei wneud ar adeilad o unrhyw fath sy'n bodoli eisoes er mwyn ei addasu'n un o'r uchod, yna *ni* fydd y rheoliadau newydd yn berthnasol.

Ni fydd y gofynion newydd yn berthnasol i gartrefi symudol a charafanau.

C3 - Beth am adeiladau rhestredig?

Bydd y gofyniad yn berthnasol i Adeiladau Rhestredig ar yr amod na fydd y gwaith o osod system atal tân yn newid cymeriad na golwg yr adeilad mewn modd annerbyniol. Bydd y Corff Rheoli Adeiladu yn ystyried y cais ar y cyd â Cadw a sefydliadau eraill â diddordeb.

C4 - Pam nad yw gwestai'n cael eu cynnwys a lletyau preswyl yn cael eu cynnwys?

Mae'r gofynion i osod system atal tân awtomatig mewn preswylfa newydd neu breswylfa wedi'i haddasu yn cael eu nodi ym Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, sy'n darparu diffiniad o "preswylfa". Mae'r diffiniad hwnnw'n cyfeirio at adeiladau ac ynddynt ystafelloedd *"y bwriedir i berson neu bersonau ddefnyddio'r ystafell honno neu'r ystafelloedd hynny ar gyfer byw neu gysgu, ac eithrio fel rhan o aelwyd unigol sy'n meddiannu'r adeilad cyfan"*.

Felly, rydym wedi ystyried adeiladau sy'n cynnwys ystafelloedd *"y bwriedir eu defnyddio ar gyfer byw neu gysgu"*. Mae gwestai yn lleoedd lle mae pobl yn aros at ddibenion hamdden a busnes pan fyddant i ffwrdd o'u prif breswylfa (lle maent yn byw), felly ni ellir dweud eu bod yn "byw" mewn gwesty. Er y gall fod achosion unigol lle yr ymddengys fod person yn "byw" mewn gwesty, mewn achosion o'r fath, bydd y gwesty ei hun yn dal i gael ei reoli fel gwesty, a'i brif swyddogaeth fydd darparu ystafelloedd i bobl aros ynddynt pan fyddant i ffwrdd o'u prif breswylfa.

I'r gwrthwyneb, pan fydd person yn "lletya" mewn llety preswyl, gellir dweud ei fod yn "byw ac yn cysgu" yn yr ystafelloedd sydd ynddo, a bydd y llety preswyl ei hun yn cael ei reoli at y diben hwnnw.

C5 - Pryd daeth y gofynion i osod systemau chwistrellu tân i rym?

Daeth y gofynion i rym o **30 Ebrill 2014** ymlaen ar gyfer yr adeiladau isod, boed yn rhai newydd neu'n rhai a addaswyd:

- Cartrefi gofal (fel y'u diffinnir yn Neddf Safonau Gofal 2000);
- Cartrefi preswyl i blant;
- Hosbisau;
- Lletyau preswyl;
- Neuaddau preswyl;
- Hosteli ac eithrio hosteli y bwriedir iddynt fod yn llety dros dro at ddibenion hamdden (e.e. nid Hosteli leuenctid na hosteli ar gyfer gwarbacwyr);
- Unrhyw ddiben preswyl arall ac eithrio'r rheini y cyfeirir atynt yn C3 uchod.

Ac o **1 Ionawr 2016** ymlaen ar gyfer yr adeiladau isod, boed yn rhai newydd neu'n rhai a addaswyd:

- Tai;
- Fflatiau.

C6 - Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Bydd gofynion y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol pan fydd:

- Gwaith adeiladu newydd yn creu preswylfa neu breswylfeydd newydd, fel y'u diffinnir uchod;
- Newid defnydd er mwyn addasu adeilad sy'n bodoli eisoes yn breswylfa neu'n breswylfeydd newydd.

C7 - Ble galla i ddod o hyd i arweiniad am y gofynion?

Mae canllawiau technegol ar y safonau y bydd yn rhaid cadw atynt wrth osod systemau atal tân newydd i'w gweld yn Nogfennau Cymeradwy B (Diogelwch Tân) Cyfrolau 1 a 2.

<http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-b-fire/?skip=1&lang=cy>

Mae yna hefyd Ganllaw i Ddeiliaid Tai ar Systemau Chwistrellu sy'n rhoi'r wybodaeth isod:

- Crynodeb o systemau atal tân a'u manteision;
- Y gofynion o ran cynnal a chadw a sut mae mynd ati i'w bodloni;
- Cwestiynau cyffredin a 'chwalu chwedlau';
- Ble mae dod o hyd i ragor o wybodaeth.

<http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/publications/householders-guide-to-fire-sprinklers/?skip=1&lang=cy>

C8 - A oes unrhyw Safonau Prydeinig perthnasol?

Oes. Y ddwy Safon Brydeinig berthnasol yw:

- BS 9251 (Systemau chwistrellu ar gyfer meddianaethau preswyl a domestig – Cod ymarfer);
- BS EN 12845 (Systemau ymladd tân sefydlog – Systemau chwistrellu awtomatig – Dylunio, gosod a chynnal a chadw).

Bydd canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy yn nodi mai BS 9251 yw'r brif safon ar gyfer bodloni'r gofyniad yn y rheoliadau; ac os na fydd preswylfeydd yn dod o dan safon BS 9251, yna'r safon berthnasol fydd BS 12845 (Systemau chwistrellu ar gyfer meddianaethau masnachol).

C9 - Beth am systemau niwl dŵr a systemau atal tân eraill?

Cafodd Safon Brydeinig 8458 ar gyfer Systemau Niwl Dŵr Preswyl a Domestig ei chyhoeddi ym mis Hydref 2015. Rydym am gadw'r hyblygrwydd i gyfeirio at systemau o'r fath drwy ddiweddarau'r gofynion yn y Dogfennau Cymeradwy. O dan amgylchiadau o'r fath, y Corff Rheoli Adeiladu fydd yn penderfynu a yw'r system yn bodloni'r gofyniad.

C10 - O ble bydd y dŵr yn cael ei gyflenwi?

Bydd y dŵr i gyflenwi'r systemau atal tân yn dod naill ai o'r prif gyflenwad dŵr, neu o danc (y tu mewn neu'r tu allan i'r eiddo) a phwmp. Bydd y dewis yn dibynnu ar y datblygwr, a fydd yn gwneud y penderfyniad ar ôl trafod gyda'r cwmni dŵr perthnasol, gan ystyried materion fel pwysedd a llif tebygol y dŵr.

C11 - A fydd gofyn i ddeiliaid tai gynnal a chadw eu systemau chwistrellu tân?

Na fydd. Ni fydd gofyniad cyfreithiol ar ddeiliaid tai i gynnal a chadw eu systemau chwistrellu tân.

Byddwn yn annog deiliaid tai i gynnal a chadw eu systemau chwistrellu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio os bydd eu hangen. Mae'r Canllaw i Ddeiliaid Tai yn ceisio addysgu deiliaid tai am fanteision system chwistrellu sy'n gweithio a sut i'w chynnal a'i chadw. Os bydd y system yn defnyddio dŵr sy'n cael ei gyflenwi drwy danc neu bwmp, bydd yn bwysig sicrhau bod y pwmp yn cael ei brofi. Maes o law, mae'n bosibl y bydd y sector preifat yn cynnig pecynnau a fydd yn cynnwys cynnal a chadw systemau atal tân domestig ochr yn ochr â chynnal a chadw offer arall yn y cartref fel boeleri nwy.

C12 - Pwy fydd yn penderfynu a yw'r systemau chwistrellu wedi'u gosod yn gywir ac yn gweithio'n dda?

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd rhoi tystiolaeth i'r Corff Rheoli Adeiladu – naill ai'r awdurdod lleol, neu Arolygwyr Cymeradwy preifat – fod y system wedi'i dylunio, ei gosod a'i chomisynu yn unol â'r safonau sy'n ofynnol.

C13 - Os nad oes system chwistrellu yn fy nhŷ, ac os ydw i'n ei ymestyn, oes angen imi osod system chwistrellu yn y tŷ ac yn yr estyniad?

Nac oes. Nid yw'r gofynion yn ôl-weithredol, felly os nad oes system atal tân wedi'i gosod yn y tŷ, ni fydd yn rhaid gosod system chwistrellu yn y tŷ nac yn yr estyniad.

C14 - Os oes system chwistrellu yn fy nhŷ, ac os ydw i'n ei ymestyn, oes angen imi osod system chwistrellu yn y tŷ ac yn yr estyniad?

Oes. Mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn bodloni'r un gofynion yn yr estyniad ag yn yr eiddo sydd eisoes yn bodoli. Felly, bydd angen system chwistrellu yn yr estyniad.

C16 - Os oes system chwistrellu fy nhŷ ac os ydw i'n addasu atig er mwyn creu ystafell wely ychwanegol, oes angen imi osod system chwistrellu yn yr atig ar ôl iddo gael ei addasu?

Oes. Mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn bodloni'r un gofynion yn yr atig ar ei newydd wedd ag yn yr eiddo sydd eisoes yn bodoli. Felly, bydd angen system chwistrellu yn yr atig ar ôl iddo gael ei addasu.

C16 - Os oes system chwistrellu yn fy nhŷ, ac os ydw i'n adeiladu garej yn agos i'r tŷ, oes angen imi osod system chwistrellu yn y garej?

Nac oes. Dim ond i lety preswyl y mae'r gofyniad yn berthnasol ac nid i garejys, ar yr amod bod y ddarpariaeth gwrthsefyll tân rhwng y tŷ a'r garej o'r safon ofynnol.

C17 - Os ydw i'n addasu adeilad sy'n bodoli eisoes er mwyn ei droi'n fflatiau ac os nad oes system chwistrellu ynddo, oes angen gosod system chwistrellu ar ôl addasu'r adeilad?

Oes. Mae'r gofyniad yn berthnasol i fflatiau newydd ac i fflatiau a gaiff eu creu drwy addasu adeilad a newid y defnydd a wneir ohono.

C18 - Os ydw i'n gosod system chwistrellu mewn fflatiau, oes angen imi eu gosod mewn tyllau grisiau sy'n cael eu rhannu ac mewn mannau eraill sy'n cael eu rhannu?

Nac oes. Mae'r gofyniad yn berthnasol i ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer byw a chysgu (fel ystafell wely, cegin a lolfa) ac nid tyllau grisiau a mannau eraill sy'n cael eu rhannu. Gall fod achosion lle mae systemau chwistrellu yn cael eu gosod yn y mannau hyn ond byddai hynny'n ofyniad dylunio ychwanegol.

C19 - A fydd systemau chwistrellu yn dechrau'n ddamweiniol?

Ychydig iawn o risg sydd yna y bydd system atal tân yn dechrau'n ddamweiniol .

C20 - A fydd y system chwistrellu yn dechrau gweithio os bydda i'n coginio neu'n llosgi'r tost?

Na fydd. Dim ond pan fydd y tymheredd yn cyrraedd rhwng 57 a 68 gradd Celsius ("y tymheredd gweithredu") oherwydd tân, y bydd system chwistrellu yn dechrau gweithio. Dylunydd y system chwistrellu fydd yn pennu'r tymheredd gweithredu penodol. Nid yw mwg yn peri i system chwistrellu weithredu, ac ni fydd coginio neu losgi tost yn gwneud hynny ychwaith.

C21 - Os bydd tân, sawl chwistrell fydd yn dechrau gweithio?

Yr unig chwistrellau fydd yn dechrau gweithio fydd y rheini sy'n agos i'r tân ac a fydd wedi cyrraedd y tymheredd gweithredu a bennwyd ymlaen llaw. Ni fydd chwistrellau mewn rhannau eraill o'r ystafell ac ystafelloedd cyfagos lle nad oes tân, yn dechrau gweithio.

C22 - Fydd system chwistrellu yn achosi difrod dŵr ar ôl iddo ddechrau gweithio?

Pan fydd system chwistrellu'n dechrau gweithio, bydd yn chwistrellu defnynnau o ddŵr yn drylwyr i reoli neu ddiffodd y tân. Bydd y rhan o'r adeilad sydd yng nghyffiniau'r chwistrell yn wlyb diferu oherwydd y dŵr a fydd wedi cael ei chwistrellu. Mewn sawl achos, bydd angen sychu'r hyn sydd o fewn cyrraedd i'r chwistrell.

Mae angen cymharu hyn â'r difrod y byddai tân yn ei achosi pe na bai system chwistrellu ar gael (gallai fod yn waeth o lawer) ac â'r difrod a fyddai'n cael ei achosi gan y dŵr a gâi ei ddefnyddio gan y Gwasanaeth Tân i ddiffodd y tân. Bydd y Gwasanaeth Tân yn defnyddio llawer mwy o ddŵr na'r dŵr a ddaw o'r system chwistrellu, ac felly bydd y difrod dŵr yn fwy o lawer hefyd.

C23 - Oes risg o glefyd y lleng filwyr (Legionella)?

Mae clefyd y lleng filwyr yn lledaenu drwy ddŵr heintus sydd wedi'i erosoli. I droi'n erosol, mae angen i ddefnyddwyr dŵr fod o faint penodol sy'n llai o lawer na'r defnyddwyr dŵr a gaiff eu chwistrellu o systemau chwistrellu. Hefyd, dim ond pan fo'r system chwistrellu ymlaen y mae dŵr yn debygol o gael ei erosoli, ac os felly, nid yw'n debygol y byddai'r preswylwyr yn dod i gysylltiad af ef oherwydd y byddent yn gadael y rhan honno o'r adeilad oherwydd tân. Er bod risg o glefyd y lleng filwyr, mae'r risg honno'n isel neu'n ddibwys yn achos systemau chwistrellu.